Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

# Strategaeth Derfynol Toiledau Lleol

## Rhagfyr 2019




Pan welwch yr arwydd hwn,
mae'n golygu bod croeso
ichi ddefnyddio'r toiled

When you see this sign,
it means you are welcome
to use the toilet

## Crynodeb Gweithredol

Mae toiledau at ddefnydd cyhoeddus yn bwysig i bawb sy'n "mynd i ffwrdd o adref". Ond maen nhw, fodd bynnag, hyd yn oed yn fwy pwysig i grwpiau penodol oddi fewn i gymdeithas, yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl ag anghenion penodol (yn cynnwys problemau meddygol penodol), menywod, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gall y grwpiau hyn gael eu heffeithio'n anghymesur drwy ddarpariaeth wael, er enghraifft, deellir fod darpariaeth wael yn cael effaith negyddol penodol ar bobl hŷn, gan y bydd rhai yn llai tebygol o adael eu cartrefi heb gael yr hyder fod cyfleusterau digonol am fod ar gael iddynt. Gall hyn gyfrannu at gynnydd mewn arwahaniad cymdeithasol ac anactifedd, yn ogystal ag effeithio ar allu pobl i gynnal annibyniaeth ac urddas yn hwyrach yn eu bywydau.

Daeth Rhan 8 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017: Darparu Toiledau i rym ar 31 Mai 2018 ac mae'n gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddus strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal.

Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol Cymru bellach i:

- asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- cynhyrchu strategaeth toiledau lleol; ac
- adolygu'r strategaeth, diweddaru a hysbysebu adolygiadau

Er bod Rhan 8 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar 'Ddarpariaeth Toiledau', mae darparu a chynnal toiledau mewn lleoedd cyhoeddus yn ôl swyddogaeth yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol sydd â'r grym o dan Adran 87 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1963 i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus. Nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol. Wrth ystyried darparu a chynnal toiledau at ddefnydd cyhoeddus, rhaid i'r cyngor gydbwyso cystadleuaeth leol am y galw am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Felly rhaid i'r Cyngor gymryd golwg strategol am sut y gellir darparu cyfleusterau i'w defnyddio gan y boblogaeth leol.

Nod cyffredinol y strategaeth hon yw darparu neu hwyluso'r ddarpariaeth o doiledau glân, diogel, hygyrch a chynaliadwy i breswylwyr ac ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol mewn lleoliadau ble mae'r angen am gyfleusterau o'r fath wedi cael ei ddynodi.

Bydd lleoliadau toiledau yn cael eu hyrwyddo drwy fapio ar wefannau Lle a Dewis a thrwy gyfrwng apiau sydd wedi eu dylunio'n benodol ar gyfer technoleg symudol a

ffonau clyfar. Bydd lleoliadau cyfranogol hefyd yn arddangos sticer mewn lle amlwg, gan ddynodi fod toiledau ar gael i'r cyhoedd. Bydd y sticer yn arddangos logo a amodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae mapio yn rhan bwysig o'n strategaeth fel y gall pobl sydd am ymweld â thoiled gael gafael ar wybodaeth yn hawdd am leoliad, amseroedd agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael.

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys adborth yn dilyn dau ymarferiad ymgynghoriad cyhoeddus a gafwyd rhwng Medi 2018 a Mawrth 2019. Cafodd y cyntaf o'r ymgynghoriadau hyn ei ddylunio i asesu anghenion preswylwyr a phobl sy'n ymweld â, neu'n gweithio yn y Fwrdeistref Sirol ac yn dilyn hynny cafodd strategaeth ddrafft ei gynhyrchu. Roedd yr ail ymgynghoriad cyhoeddus yn ceisio cael safbwyntioau am y strategaeth ddrafft. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi cael eu defnyddio i lywyio cynnwys y Strategaeth Derfynol Toiledau Lleol.

Mae'r strategaeth hon yn gosod allan cynigion, sy'n rhychwantu dros y ddwy flynedd nesaf, am archwilio ffyrdd o gynyddu'r ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn cynnwys estyn portffolio presennol y Cyngor drwy adeiladu gorsaf fysiau newydd yng nghanol y dref ac ymgysylltu â thrydydd partïon i adeiladu ar bartneriaethau cymunedol cyfredol.

## Cefndir

Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 fod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn paratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol i'w ardal erbyn 31 Mai 2019. Yn unol â chanllawiau statudol mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, wedi gosod allan strategaeth i fynd i'r afael â'r angen am doiledau yn y gymuned i geisio gwella safonau ac argaeledd toiledau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Caiff y strategaeth ei llunio o gwmpas egwyddorion cyd-gynhyrchu, drwy ymgysylltiad awdurdod lleol ac amrywiaeth eang o ddarparwyr a defnyddwyr arfaethedig.

## Cyflwyniad

I ba le bynnag y bydd pobl yn mynd iddo y tu hwnt i'w cartrefi, byddant yn dibynnu ar gyfleusterau toiled er mwyn mwynhau eu hymweliad. Mae ymwelwyr â Merthyr Tudful, a allai hefyd fod beth pellter o'u cartrefi, hefyd yn dibynnu ar ddarpariaeth o doiledau hygyrch.

Mae'r ddarpariaeth o gyfleusterau cyhoeddus yn meddu ar oblygiadau o ran iechyd y cyhoedd a'r unigolyn, trawsgludiad, atal trosedd, dylunio trefol, datblygiad economaidd a diwylliannol ac ecwiti a hygyrchedd cymdeithasol. Y mae'n ffactor bwysig wrth gyflenwi amgylchedd sy'n 'gyfeillgar i bobl' ar gyfer pawb sy'n mynd i ganolfannau hamdden, lleoliadau hamdden ac adloniant, cyfleusterau chwaraeon, parciau a mannau gwyrdd, unrhyw un sy'n symud o gwmpas ar droed, ar feic, mewn car, fan, lori neu drafnidiaeth gyhoeddus, boed ar gyfer gwaith neu bleser.

Mae toiledau at ddefnydd cyhoeddus yn bwysig i bawb sy'n "mynd i ffwrdd o adref". Ond maen nhw, fodd bynnag, hyd yn oed yn fwy pwysig i grwpiau penodol oddi fewn i gymdeithas, yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl ag anghenion penodol (yn cynnwys problemau meddygol penodol), menywod, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gall y grwpiau hyn gael eu heffeithio'n anghymesur yn sgil darpariaeth wael, er enghraifft, deellir fod darpariaeth wael yn cael effaith negyddol benodol ar bobl hŷn, gan y bydd rhai yn llai tebygol o adael eu cartrefi heb gael yr hyder fod cyfleusterau digonol am fod ar gael iddynt. Gall hyn gyfrannu at gynnydd mewn arwahaniad cymdeithasol ac anactifedd, yn ogystal ag effeithio ar allu pobl i gynnal annibyniaeth ac urddas yn hwyrach yn eu bywydau.

O ganlyniad mae darparu toiledau hygyrch i'r cyhoedd yn darparu'r isadeiledd angenrheidiol i hwyluso mwynhad ymwelwyr a phreswylwyr o'r Fwrdeistref Sirol. Gall toiledau a reolir a'u cynnal yn dda gael effaith sylweddol ar gysur unigolion a theuluoedd sy'n ymweld â mannau cyhoeddus, a'u canfyddiad o Ferthyr Tudful fel lle dymunol i fyw ynddo.

## Pam fod angen strategaeth ar gyfer darparu cyfleusterau toiledau arnom?

Dylai'r strategaeth hon gyfrannu at gyflenwi toiledau hygyrch a glân ble bynnag mae pobl yn byw, gweithio neu ymweld â hwy. Rhagwelir y bydd y Fwrdeistref Sirol yn parhau i dyfu gyda'r disgwyl o 8% o gynnydd ym mhoblogaeth preswylwyr[1], a fydd yn cynnwys cynnydd sylweddol yn y gyfran o bobl hŷn, erbyn 2024. Gyda'n gilydd ac yn sgil y nifer cynyddol o ymwelwyr â'r Fwrdeistref, dyma gyfle i osod strategaeth a fydd yn sicrhau fod cyfleusterau toiled ar gael ble y bo'u hangen.

Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol Cymru bellach i:


- asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- cynhyrchu strategaeth toiledau lleol; ac
- adolygu'r strategaeth, diweddaru a hysbysebu adolygiadau

Er bod Rhan 8 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar 'Ddarpariaeth Toiledau', mae darparu a chynnal toiledau mewn lleoedd cyhoeddus yn ôl swyddogaeth, yn ddibynnol ar ddisgresiwn awdurdodau lleol sydd â'r grym o dan Adran 87 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1963 i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus. Nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol. Wrth ystyried darparu a chynnal toiledau at ddefnydd cyhoeddus, rhaid i'r cyngor gydbwyso cystadleuaeth leol am y galw am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Felly rhaid i'r Cyngor gymryd golwg strategol am sut y gellir darparu cyfleusterau i'w defnyddio gan y boblogaeth leol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod 'egwyddor datblygu cynaliadwy' mewn lle sy'n dweud wrth gyrff cyhoeddus am fodloni eu dyletswydd o dan y Ddeddf honno.

Er mwyn creu Cymru fwy cynaliadwy mae'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fod cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at saith Nod Llesiant.

[1] Cynllun Datblygu Lleol Adnau Cyfeiriol 2016-31




Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei llunio o bum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn. Sef:

- edrych i'r hir dymor fel nad ydym yn cyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- gweithio ag eraill mewn ffordd gydweithredol i ganfod atebion cynaliadwy a rennir;
- cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a
- gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Talwyd sylw dyledus i'r pum ffordd uchod o weithio wrth baratoi, adolygu, ymgynghori ar a chyhoeddda'r strategaeth hon ac maen nhw wedi eu cynnwys yn yr asesiad effaith integredig.

## Sut mae'r strategaeth hon yn ffitio mewn gyda strategaethau a chynlluniau Cynghorau eraill?

Er mwyn llwyddo mae angen i'n strategaeth toiled lleol integreiddio â strategaethau a chynlluniau eraill cyfredol fel Ein Cwm Taf - cynllun llesiant Cwm Taf 2018-2023, Cynllun Datblygu Lleol 2016-31, Strategaeth Twf Economaidd ar gyfer Merthyr Tudful 2018-2033  Cynllun Rheoli Cyrchfan 2016-18, a Chynllun Strategaeth a Gweithredu Adfywio Cwm Taf Bargoed (2018).

Mae Ein Cwm Taf - cynllun llesiant Cwm Taf  – 2018-2023 a'r Cynllun Datblygu Lleol 2016-31 yn ymddwyn fel dogfennau trosfwaol sy'n gosod y cyfeiriad strategol ar lefel ranbarthol a lleol.

Mae gan Ein Cwm - cynllun llesiant Cwm Taf 2018-2023 dri nod: economi gref; cymunedau sy'n ffynnu; a phobl iach. Amcanion y cynllun yw:

- twf economi leol gref â thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.

- hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus gan wella llesiant preswylwyr ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.

- helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn heriau

Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol Adnau 2016-31 yw "Cryfhau sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd oddi fewn i Ranbarth Dinesig Caerdydd, i annog lefel gynaliadwy o dwf yn y boblogaeth a bod yn lle i ymfalchïo ynddo ble:

- Mae pobl yn dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgais;
- Mae pobl yn byw, gweithio, ac yn cael bywyd diogel, iach a chyflawn; a
- Mae pobl yn ymweld, mwynhau a dychwelyd iddo."

Y mae'n cydnabod fod ymdrech ar y cyd yn ofynnol i sicrhau fod y Fwrdeistref Sirol yn denu buddsoddiad ac yn aros yn lle deniadol ble mae pobl am fyw ynddo ac ymfalchïo ynddo. Y mae'n datgan dros gyfnod y cynllun fod yn rhaid gwneud y mwyaf o gyfleoedd a gyflwynwyd gan y 'Fargen Ddinesig' oddi fewn i gyd-destun Rhanbarth Dinesig Caerdydd. Yn benodol, caiff cysylltiadau trafnidiaeth eu gwella gan 'Fetro De Cymru', creu ffordd ddeuol o'r A465 a datblygu llwybrau 'Teithio Actif'.

Mae mynediad at wagle agored a'r effaith ar afonydd a llynnoedd y fwrdeistref yn gyfeiriadau cyson sy'n cydnabod pwysigrwydd yr asedau hyn fel adnodd ar gyfer ymarfer corff gan gynnal llesiant, ac atyniadau twristiaid sy'n darparu profiadau i ymwelwyr.

Mae Cynllun Llesiant Corfforaethol y Cyngor, "Canolbwyntio ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned" 2017-22 yn dynodi 4 Amcan Llesiant trosfwaol i helpu gwella llesiant pobl Merthyr Tudful a gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y saith Nod Llesiant.

- Dechrau gorau i Fywyd
- Bywyd Gwaith
- Llesiant Amgylcheddol
- Bwy'n Dda.

Mae'r strategaeth toiled lleol yn torri ar draws nifer o'r amcanion llesiant hyn ac yn anelu at gefnogi'r amcanion hyn drwy:

- Ddatblygu'r amgylchedd ac isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu
- Gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol, cefn gwlad, treftadaeth ac asedau diwylliannol
- Datblygu cymunedau diogelach
- Pobl yn meddu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl da
- Pobl yn byw'n annibynnol

## Edrych yn ôl ar ddarpariaeth hanesyddol o gyfleusterau toiledau cyhoeddus ym Merthyr Tudful a ble yr ydym ni nawr

Yn gynyddol mae gan y Cyngor heriau ac mae'n parhau i wynebu heriau i gynnal safonau'r ddarpariaeth doiledau, a'u cynnal a chadw yn sgil arian cyfyngedig a phwysau ar adnoddau. Yn 2013 ymgymerodd y Cyngor ag adolygiad o'r ddarpariaeth o gyfleusterau cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol yn erbyn cefndir o arbedion effeithlonrwydd. Ar yr adeg honno, roedd y Cyngor yn gweithredu 7 o gyfleusterau ledled y Fwrdeistref, gyda thri ohonynt yn darparu cyfleusterau toiled i ddynion yn unig. Penderfynwyd cau'r cyfleusterau cyfredol hynny er mwyn hwyluso arbedion o £65,380. Wrth wneud hynny y mae'r Cyngor yn cydnabod:

- Gallai'r bobl ganlynol fod o dan anfantais: y rheini ag anghenion penodol fel teuluoedd â babanod a phlant, pobl hŷn, pobl ag anableddau neu â gofidion iechyd pendodol, twristiaid o dramor ac ymwelwyr â'r dref.

- Caiff profiad ac argraff gyffredinol ymwelwyr â'r dref eu llywio gan y diffyg o'r cyfleusterau pwysig hyn.

- Byddai'n rhaid gwerthu cyfleusterau, eu chwalu neu eu gwneud yn ddiogel yn barhaus.

Yn dilyn yr arbedion effeithlonrwydd hyn, mynegodd grŵp cymunedol lleol ddiddordeb mewn cymryd drosodd un o'r toiledau hyn a oedd wedi cau ym mhentref gwledig Pontsticill, gan eu bod yn cael problemau gyda cherddwyr a thwristiaid a oedd yn mynd i'r tŷ bach mewn lleoliadau amhriodol. Gwnaeth y grŵp arddangos eu

bod yn gallu cynnal y costau rhedeg a oedd ynghlwm wrth y toiledau. Yn dilyn cymeradwyaeth Cabinet, derbyniodd y grŵp cymunedol brydles 25 mlynedd ar rent y farchnad (cyswllt mynegai) a'i gefnogi drwy grant rhentu a grantiau datblygu eraill, hyd yma bu'r model hwn yn llwyddiannus iawn.

Yn hanesyddol, er mwyn annog busnesau lleol i agor eu toiledau a chynyddu'r nifer o doiledau ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio, roedd Llywodraeth Cymru (LlC) yn cynnig Grant Cynllun Toiled Cymunedol. Byddai busnesau yn cael cynnig ad-daliad blynyddol o £500. Yn anffodus, ni wnaeth neb ymgymryd â'r cynnig hwn ym Merthyr Tudful. Ymhlith y rhesymau a roddwyd oedd amodau beichus, mynediad i'r anabl, agor 7 niwrnod ac yn y blaen am gyn lleied o arian a'r costau ychwanegol a fyddai o ran glanhau a defnyddiau traul. Yn 2014/15 cafodd yr arian hwn ei drosglwyddo drwy Grant Cefnogi Refeniw LlC a gwnaeth y Cyngor ddarfod cefnogi Cynllun Toiled Cymunedol.

Heddiw, mae'r ddarpariaeth gyfredol o doiledau cyhoeddus ym Merthyr Tudful yn canolbwyntio ar barciau a chyfleusterau hamdden. Mae'r model yn un cymhleth gydag adeiladau un ai dan berchnogaeth neu ar brydles angen y Cyngor neu Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ac amrywiol drefniadau mewn lle ar gyfer glanhau a chynnal a chadw. Ymgymerir â'r gweithgareddau hyn un ai'n uniongyrchol neu drwy gytundebau lefel gwasanaeth rhwng y partïon.

Gellir dadlau ers cyflwyno'r grym i ddarparu toiledau cyhoeddus yn Neddf Iechyd Cyhoeddus 1936, fod y ddibyniaeth ar doiledau cyhoeddus i ddiwallu anghenion tolied y boblogaeth, tra i ffwrdd o'r cartref, wedi lleihau'n sylweddol. Yn wir, ar y cyfan, mae llawer o'r cyfleusterau masnachol hyn yn elwa o ragor o safonau dylunio wrth eu cymharu â thoiledau cyhoeddus traddodiadol. Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae Merthyr Tudful wedi profi buddsoddiad sylweddol sydd wedi arwain at adfywiad o lawer o leoliadau. O ganlyniad, mae llawer o fanwerthwyr preifat a chyfleusterau hamdden bellach yn darparu cyfleusterau cyhoeddus fel rhan o'u datblygiadau o dan reoliadau adeiladu e.e. Mae Parc Manwerthu Cyfarthfa, Pentref Hamdden Rhydycar a Trago Mills oll yn darparu cyfleusterau toiled ar wahân o ansawdd uchel, yn cynnwys toiledau, cyfleusterau newid babi ac oedolion a thoiledu cwbl hygyrch ar gael dros oriau agor estynedig, ac felly wedi eu cynllunio i arwain at gynnydd o ran y nifer o bobl sy'n dod. Er nad yw'r rhain yn doiledau cyhoeddus, maen nhw'n gyfleusterau y gellir eu defnyddio gan y cyhoedd wrth ymweld â siop benodol neu ganolfan hamdden ac yn golygu fod yna lai o orfodaeth ar y Cyngor i ddarparu cyfleusterau traddodiadol sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor.

Mae twristiaeth yn parhau i fod yn gydran bwysig o'r economi ranbarthol a lleol. Mae Merthyr Tudful yn prysur ddyfod yn ganolfan i weithgarwch twristaidd a chaiff ei chydnabod fel un o ranbarthau mwyaf dymunol Cymru o ran twristiaeth antur. Y mae'n ganolfan ar gyfer cerdded a seiclo (yn agos at Fannau Brycheiniog a Bike Park Wales) ac felly mae argaeledd toiledau glân a hygyrch i'r cyhoedd yn gynyddol bwysig i'r economi leol.

Wrth symud ymlaen mae yna gynlluniau cadarnhaol i gynyddu'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yng nghanol y dref fel rhan o adleoli ac adeiladu datblygiad gorsaf fysiau newydd. Dyhead y Cyngor yw lleoli 11 toiled cyhoeddus yng nghyfleustra'r orsaf fysiau arfaethedig yn y dref. Mae'r cynllun cyfredol yn ddibynnol ar ddyfarniad ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru, â'i fod yn llwyddiannus gallai gwaith ddechrau for fuan â'r haf 2019. Byddai gan y cynllun 2 gyfleustra i'r anabl, 4 i fenywod, 5 i ddynion (yn cynnwys 3 wrinal) a 2 gyfleustra newid babi. Byddai dŵr glaw yn cael ei gynaeafu i'w ddefnyddio i fflysio'r toiled a chyfleusterau'r ardal denant. Yn sgil hanes o gam-drin cyfleusterau toiled a oedd wedi eu lleoli'n flaenorol yn yr orsaf fws gyfredol, o ran defnyddio cyffuriau, fandaliaeth a glendid, yn golygu y bydd defnyddwyr y cyfleusterau newydd yn debygol o dalu taliad bychan.

## Nodau ac Amcanion

Nod trosfwaol y strategaeth hon yw darparu neu hwyluso'r ddarpariaeth o doiledau glân, diogel a chynaliadwy i breswylwyr ac ymwelwyr â'r Fwrdeistref mewn lleoliadau ble y cafodd yr angen am gyfleusterau o'r fath ei ddynodi.

Nodau:

- Dynodi'r lefel presennol o ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus
- Dynodi ble mae yna fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol
- Ehangu'r cynnig o gyfleusterau glân, diogel sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda drwy weithio â phartneriaid ac ymgysylltu cymunedol
- Cyfleusterau'n hygyrch i bawb
- Cyfleusterau'n addas ar gyfer y lleoliad gan ei wneud yn hyfyw a chynhwysol
- Digon o gyfleusterau i'r boblogaeth leol a defnyddwyr lleol
- Darpariaeth gyda'r nos a thros nos mewn lleoliadau allweddol ble y caiff angen penodol ei sefydlu
- Cynnydd mewn ymwybyddiaeth a chyfleusterau sy'n hawdd eu canfod
- Gwybodaeth i ddefnyddwyr ar gael drwy fapio drwy ddarpariaeth ar wefan Lle a Dewis.
- Defnyddio technolegau a chyfathrebu i arwain at gynnydd mewn ymwybyddiaeth o leoliadau toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio
- Gwneud y mwyaf o argaeledd drwy bartneriaeth y Cyngor a darpariaeth fasnachol
- Darpariaeth o doiledau digonol dros dro gan hyrwyddwyr / trefnwyr digwyddiadau
- Darpariaeth gynaliadwy oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael.

## Adolygu'r Strategaeth

Ar ôl i'r strategaeth gael ei gosod yn ei lle, mae yna ofyniad ei bod yn cael ei hadolygu'n achlysurol. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad cynnydd interim yn gosod allan y camau a gymerwyd yn unol â'r strategaeth hon bob 2 flynedd gan

ddechrau o pan wnaeth y Cyngor gyhoeddi ddiwethaf neu 2 flynedd o ddyddiad adolygiad ôl-etholiadol diwethaf y strategaeth hon. Mae cyhoeddi'r adolygiad yn ofynnol o fewn 6 mis. O ganlyniad caiff y strategaeth hon ei hadolygu ym Mai 2021 a'r adroddiad ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021.

## Sut cafodd y strategaeth ei datblygu?

Wrth gydnabod pwysigrwydd a heriau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r strategaeth, cafodd grŵp tasg ei roi at ei gilydd fel y byddai'n cael ei ddatblygu â mewnbwn o drawstoriad o adrannau'r Awdurdod Lleol. Cafodd yr ymagwedd hon ei hystyried yn hanfodol er mwyn cipio'r holl ddata gwaelodlin oedd ar gael i wneud y mwyaf o gyfleoedd a gwella darpariaeth toiledau yn y Fwrdeistref Sirol. Ymhlith aelodau'r grŵp tasg oedd cynrychiolwyr o Iechyd Amgylcheddol, Cynllunio, Ystadau, Datblygu Economaidd, Adfywio a thwristiaeth, Hawliau Tramwy, Gwasanaethau Amgylcheddol, Cyfathrebu Corfforaethol, Newid Busnes, ac Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful. Roedd yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd hefyd yn aelod o'r grŵp gan arddangos ymrwymiad gwleidyddol â'r strategaeth.

Talwyd sylw dyledus i ddata demograffig ac iechyd lleol yn Atodiad 3.

Ymgymerwyd ag ymgysylltiad â chyrff cyhoeddus eraill, grwpiau cymunedol, menter breifat a'r cyhoedd er mwyn deall beth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd a sut y gallai unrhyw fylchau yn y cynnig hwn gael eu lliniaru.

Ymgymerwyd ag ymgynghoriad cyhoeddus drwy gydol mis Medi 2018 i asesu anghenion preswylwyr, a phobl yn ymweld neu'n gweithio oddi fewn i'r fwrdeistref sirol gyda golwg ar ddynodi bylchau mewn darpariaeth a sut y gellir mynd i'r afael â hynny. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei hysbysebu drwy system ymgynghori ar-lein y Cyngor. Derbyniwyd cyfanswm o 438 o ymatebion yn cynnwys 149 ymateb cyflawn a 289 ymateb rhannol. Caiff ei gydnabod fod y nifer o ymatebion yn ystadegol fach, ac felly rhaid ystyried y canlyniadau â gofal. Gellir gweld crynodeb o ddadansoddiad o'r ymgynghoriad asesiad angen yn Atodiad 1.

Ar yr un pryd, cysylltodd y Cyngor â'r holl fanwerthwyr cenedlaethol sy'n gweithredu yn y Fwrdeistref fel rhan o ymarfer ar y cyd ledled Cymru i geisio cael cytundeb mewn egwyddor y gellir defnyddio eu cyfleusterau toiled gan y cyhoedd yn gyffredinol. Y diben oedd sefydlu a fyddai'r busnesau hyn yn barod i fod yn rhan o'r strategaeth drwy ganiatáu i'w cyfleusterau toiled gael eu defnyddio gan bobl na fyddent yn gwsmeriaid, eu harwyddbostio drwy wefannau cenedlaethol ac apiau ffôn a chytuno i arddangos sticer yn dangos logo toiled cenedlaethol. Dim ond 1 busnes a leolir yn y Fwrdeistref wnaeth wirfoddoli i gynnig ei gyfleusterau toiled i'r cyhoedd ac i gael ei fapio. Fodd bynnag, mae'r adborth a gafwyd o'r arolwg asesiad angen, yn dynodi fod y cyhoedd mewn gwirionedd yn dibynnu ar gyfleusterau a ddarperir gan siopau mwy o faint fel yr archfarchnadoedd yn enwedig yng nghanol y dref.

Cafodd ymarfer tebyg ei weinyddu pan wnaeth y Cyngor gysylltu â 141 o fusnesau lleol i bennu a fydden nhw'n barod i gyfranogi. Cafwyd 13 ymatebiad a gwnaeth 6 gytuno i ganiatáu i'w cyfleusterau gael eu defnyddio gan y cyhoedd ac i'w mapio. Wrth ddefnyddio canfyddiadau cyffredinol yr asesiad, a wnaeth ddynodi'r prif fylchau mewn darpariaeth, cafodd busnesau penodol sydd, neu sydd wedi bod mewn perthynas â'r Cyngor eu targedu ar gyfer cyswllt dilynol unigol.

Yn ogystal, cysylltwyd hefyd â Bwrdd Iechyd Cwm Taf a lleoliadau gofal iechyd yn cynnwys meddygon, deintyddion ac optegwyr i sefydlu a oes yna leoliadau â thoiledau sydd ar gael i'r cyhoedd y gellir eu mapio a'u harwyddbostio at ddefnydd cyhoeddus.

## Sut fydd toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael eu harwyddbostio a'u mapio?

Mae hon yn rhan bwysig o'n strategaeth fel bod pobl sydd am ymweld â thoiled yn gallu cael mynediad at wybodaeth yn hawdd ynghylch y lleoliad, amseroedd agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael.

Yn achlysurol bydd y Cyngor yn adolygu ei storfa ddata "Lle" Llywodraeth Cymru i alluogi mynediad at wybodaeth gywir gan gyhoeddwyr cyfeirlyfrau a mapiau, preswylwyr ac ymwelwyr. Parth-geo yw Lle sy'n gwasanaethu fel hyb ar gyfer data a gwybodaeth sy'n cynnwys sbectrwm eang o bynciau, ond yn bennaf ynghylch yr amgylchedd. Bydd Lle yn cynhyrchu mapiau Cymru gyfan yn seiliedig ar y setiau data a ddarparwyd gan awdurdodau lleol y gellir ffurfweddu i ganolbwyntio ar un ai'r darlun cenedlaethol, neu ardaloedd mwy lleol. Bydd y data sy'n cael ei gynnwys ar fap Lle ar gael fel gwasanaeth data agored sy'n hygyrch i bawb. Mae'r ddolen at barth Lle isod.

http://lle.gov.wales/home

Bydd y set data ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y cyhoedd yn gallu gweld a chwilio am y data wrth iddo ymddangos ar wefan Lle, i weld Cymru gyfan neu edrych ar ardaloedd penodol.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu ap, gan fod na all llawer o bobl ddefnyddio ffôn clyfar am nifer o resymau. Y mae'n fwy priodol canolbwyntio ar sicrhau fod y wybodaeth ar gael ar-lein drwy amrywiaeth eang o wefannau a thrwy gyfrwng dulliau traddodiadol oddi ar-lein.

Fodd bynnag, gan fod y data a ddarperir gan awdurdodau lleol am gael ei wneud ar gael fel data agored, bydd ar gael i'w ailddefnyddio gan drydydd partïon, drwy gyfrwng y set data cysylltiedig y tu ôl i'r map Lle. Gallai hyn gynnwys gwasanaethau map eraill ar-lein, datblygwyr ap neu fuddion masnachol, yn ogystal â bod ar gael i'w ailddefnyddio gan sefydliadau eraill y sector cyhoeddus. Rhagwelir fod lleoliadau

toiledau yn cael eu hyrwyddo drwy gyfrwng ap mapio a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer technoleg ffônau symudol a ffonau clyfar drwy gyfrwng trydydd partïon.

Bydd lleoliadau cyfranogol hefyd yn arddangos sticer mewn lle amlwg, gan ddynodi fod toiledau ar gael i'r cyhoedd. Bydd y sticer yn arddangos logo a amodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae Cymdeithas Tolied Prydeinig / British Toilet Association (BTA) hefyd yn argymell gosod arwyddion ar y tu allan gyda gwybodaeth fel oriau agor, gwybodaeth gyswllt ar gyfer rhoi gwybod am broblemau a chyfleusterau penodol a ddarparwyd y tu mewn, fel a oes yna ystafell newid babi.

Bydd y Cyngor hefyd yn postio gwybodaeth ar wefan Dewis <https://www.dewis.wales/home> .


Yn Atodiad 2 ceir rhestr o doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd â chytundeb y gellir eu mapio. Bydd manylion cyflawn am fanylion, amseroedd agor a chyfleusterau sydd ar gael yn cael eu cynnwys ar wefannau Lle and Dewis a'u diweddaru ar gyfnodau rheolaidd.

## Beth wnaethom ni ei ddysgu wrth gynnal yr asesiad anghenion?

Canfyddiadau allweddol yr asesiad anghenion yw:

### Trosolwg Cyffredinol


Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg asesiad angen, 88%, yn preswylio yn y Fwrdeistref. Fel rhan o'r asesiad angen gofynnwyd i ymatebwyr pa ardaloedd oedden nhw'n ymweld â nhw'n fwyaf angen. Caiff y canlyniadau eu crynhoi yn y siart isod gyda 3 ardal wedi eu dynodi fel y rhai mwyaf poblogaidd sef ward y dref gyda 56% gyda Threharris 17% a Chyfarthfa 6% i ddilyn.




Mae’r siart isod yn crynhoi prif ganfyddiadau’r asesiad angen gan ystyried yr holl ardaloedd. Y bwlch mwyaf trawiadol ac nid annisgwyl rhwng yr angen a’r ddarpariaeth yw’r diffyg cyffredinol o gyfleusterau toiled sydd ar gael i’r cyhoedd eu defnyddio, sy’n effeithio’n uniongyrchol ar a yw pobl yn mentro o’u cartrefi. Roedd pobl yn amharod i ddefnyddio siopau ble yr oedden nhw’n teimlo fod angen arnynt brynu rhywbeth ac roedd pryderon am lendid rhai o’r toiledau, a’u diogelwch.

Cafwyd safbwynt unfrydol, bron, nad oes yna ddigon o wybodaeth am ble yn hollol mae’r toiledau.

Mae’r siart hefyd yn dangos nad oedd yna wahaniaethau arwyddocaol rhwng ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn berthnasol i ddarpariaeth toiledau i’r abl a’r anabl.




. * Yn cynnwys yr ymatebwyr hynny sydd â salwch hir dymor.


## Canol y Dref

Canol y dref yw’r cyrchfan mwyaf poblogaidd a ddynodwyd gan yr asesiad angen a hwn yw’r prif ganolfan drafnidiaeth i bobl sy’n cyrraedd ar drên neu fws. Dylai darpariaeth toiledau'r Cyngor fod ar gyfer siopwyr ac ymwelwyr yn bennaf mewn ardaloedd ble y daw llawer o bobl. Rydym yn gwybod o’n monitro parhaus o bresenoldeb pobl drwy ddefnyddio GEO-Sense fod yna gyfartaledd o 1,485,994 o ymwelwyr bob blwyddyn sy’n hafal â 212,285 bob mis a chyfartaledd o 45,030 bob wythnos. Mae’r data yn cyfri ymwelwyr newydd a rhai sy’n ailymweld â’r dref, pa mor hir yw eu hymweliad a’r amseroedd maen nhw’n ymweld. Mae’r BTA yn gwneud argymhellion am y nifer o gyfleusterau toiled sydd eu hangen mewn ardal yn seiliedig ar ddwyster poblogaeth, cymysgedd o rywiau ac ôl traed pobl. Y lefel ddelfrydol a argymhellir yw 1 ciwbicl am bob 550 o fenywod ac 1 ciwbicl neu wrinal am bob 1100 o ddynion, sef cymhareb o 2:1 o blaid menywod. Dylai un toiled hygyrch a hefyd un cyfleuster newid babi gael eu darparu am bob 10,000 o’r boblogaeth.


Yn arwyddocaol nid oes arwyddion at gyfleusterau toiled ac ar hyn o bryd nid oes cyfleusterau toiled a ariennir yn gyhoeddus yn cael eu darparu. Mae’r ddarpariaeth doiled yn gyfan gwbl ddibynnol ar fusnesau preifat sy’n cynnig cyfleusterau i gwsmeriaid, rai ohonynt sy’n cloi eu toiledau i atal defnydd gan bobl nad ydynt yn gwsmeriaid. Cadarnhaodd adborth dros y ffôn oddi wrth fusnesau lleol fod yr arfer olaf hwn yn gyffredin yn yr ardal wrth ymyl yr orsaf fysiau oherwydd pryderon ynghylch ymddygiad gwrth gymdeithasol, fandaliaeth a cham-drin cyffuriau. Cafodd ei awgrymu gan berchennog busnes y gallai cymhelliant ariannol berswadio rhai busnesau i newid eu hymagwedd.

Mae’r tabl isod yn rhoi trosolwg o’r ymatebion a gafwyd am y ddarpariaeth o gyfleusterau toiled yng nghanol y dref. Mae’r neges yn glir oddi wrth yr ymatebwyr, sef fod darpariaeth cyfleusterau toiled yn y dref yn annigonol un ai oherwydd nad oes toiledau ar gael neu am nad ydyn nhw’n ddigon da. Gwnaeth ymatebwyr gadarnhau eu bod yn teimlo’n anghyfforddus yn defnyddio toiledau mewn rhai busnesau achos roedden nhw’n teimlo fod angen iddyn nhw brynu rhywbeth. Mae dadansoddiad mwy manwl wedi canfod fod bylchau dynodedig mewn darpariaeth doiled yng nghanol y dref yn amlycach dros benwythnosau a gwyliau banc. Mae’r farchnad dan do a leolir yng nghanol y dref yn cynnig cyfleusterau toiled i gwsmeriaid. Yn ôl sylwadau unigolion nid yw’r cyfleusterau hyn ar gael ar ddyddiau Sul na gwyliau banc (ac eithrio Dydd Gwener y Groglith pan maen nhw ar agor) sy’n cydberthyn â chanfyddiadau’r arolwg.

**Graffiau yn dangos safbwynt Ymatebwyr o ddigonolrwydd darpariaeth toiledau yn y Dref ar ddyddiau'r wythnos (y brig) a dyddiau Sul / Gwyliau Banc (gwaelod)**




| | Cylch Mewnol | Cylch Allanol | | |
|---|---|---|---|---|
| | Diwrnod Cyfan | Cyn 9am | 9am i 6pm | Ar ôl 6pm |
| Ymateb | Dim yn gwybod | | | |
| | Dim ar gael | | | |
| | Annigonol | | | |
| | Digonol | | | |
| | Dim yn ymweld | | | |



Fel arfer mae cyfleusterau a ddarperir gan siopau a mannau eraill wedi eu cyfyngu i oriau agor y lle am resymau diogelu a diogelwch. Mae ymatebwyr wedi gwneud y sylw nad oes yna ddarpariaeth doiled ar ôl 6pm oni bai fod y cyhoedd yn defnyddio cyfleusterau cwsmeriaid mewn tafarndai / tai bwyta. Mae datblygiad o ran economi gyda'r nos a demograffeg gweithgaredd pobl yng nghanol trefi yn golygu eu bod yn gynyddol ddyfod yn ganolfannau hamdden ac adloniant yn hytrach na chanolfannau manwerthu/masnach yn bennaf. Yn anffodus mae twf economi gyda'r nos wedi arwain at gynnydd mewn gweithredoedd ymddygiad gwrth gymdeithasol sy'n cynnwys 'baeddu'r stryd' a'r angen am gyfleusterau toiled gyda'r nos. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei chymhlethu gan bobl sy'n cysgu ar y stryd yn aml yng nghanol y dref heb unrhyw gyfleusterau toiled ar eu cyfer.

Caiff ei gydnabod hefyd er mwyn osgoi wrinadu a baeddu mewn lleoedd cyhoeddus fod angen i gyfleusterau hygyrch i'r cyhoedd fod yn agos at bwyntiau ymgynnull gyda'r nos fel ranciau tacsis, meysydd parcio, gorsafoedd rheilffordd/ bws ac arosfannau. Bydd y tramiau trên newydd a gaiff eu cyflwyno fel rhan o Fetro De Cymru heb unrhyw doiledau arnynt felly bydd angen i unrhyw uwchraddio gorsafoedd trên ystyried hynny. Pryd bynnag y bo teithwyr ar y rhwydwaith tram-trên, ni ddylent fod yn fwy na 14 munud i ffwrdd o doiled.

Ceir bwlch sylweddol rhwng anghenion toiledau a'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd yn ward y dref. Mae angen adolygu'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i weld pa gamau gall y Cyngor eu cymryd i hwyluso gwelliant.

**Atyniadau**

Mae'r rhanbarth yn prysur ddyfod yn ganolfan dwristiaid a chaiff ei chydnabod fel un o'r rhanbarthau fwyaf dymunol yng Nghymru o ran twristiaeth antur.

Mae parciau fel Cyfarthfa a Thaf Bargoed yn denu twristiaid a phreswylwyr ac yn aml mae ardal chwarae i blant ynddynt; wrth fwynhau'r parciau y mae'n annhebygol y bydd yna gyfleusterau eraill yn agos y gall pobl eu defnyddio.

Mae Statws Baner Werdd gan Barc Taf Bargoed ac mae'n cynnig teithiau cerdded, chwaraeon ac antur dŵr. Dynododd yr asesiad angen nad oes yna gyfleusterau cyhoeddus ar agor ym Mharc Taf Bargoed ddyddiau Sadwrn a bod y toiledau yn cau am 3.30pm ar y dyddiau pan maen nhw ar agor. Gwnaeth y cyhoedd y sylw y byddent yn hoffi gweld darpariaeth drwy gydol y penwythnos ac oriau agor hirach gan fod y rhain yn amseroedd poblogaidd i bobl ymweld. Yn ychwanegol, nid oes cyfleusterau ar gael i newid babi. O ganlyniad dylai'r canolbwynt fod ar gynnal mynediad presennol i ddarpariaeth toiled yn yr ardaloedd hyn ac archwilio ffyrdd y gellir estyn oriau agor a chyfleusterau.

## Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y strategaeth ddrafft toiledau

Y mae'n bwysig i ni fod safbwyntiau cynifer o randdeiliaid ag sy'n bosibl yn cael eu hystyried wrth gynhyrchu'r strategaeth doiledau. Cafodd strategaeth ddrafft toiledau ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, gan redeg am 12 wythnos rhwng 20 Rhagfyr 2018 ac 14 Mawrth 2019. Yn ychwanegol cysylltwyd ag amrywiaeth o sefydliadau drwy e-bost a llythyr i geisio cael safbwyntiau am ein cynigion i wella'r mynediad at doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae rhestr o'r rheini y cysylltwyd â hwy fel rhan o'r ymgynghoriad wedi eu cynnwys yn Atodiad 4.

Derbyniwyd cyfanswm o 84 o ymatebion. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 5.

## Gwella mynediad at gyfleusterau toiledau

Wrth gydnabod nad oes ateb cyflym a bod mesurau llymder yn golygu fod y Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol, mae'r Cyngor yn ymroddedig i'r gweithredu canlynol i liniaru'r bylchau rhwng pa ddarpariaeth toiled sydd ar gael a'r angen a ddynodwyd:

**Darparu cyfleusterau sy'n addas i'r lleoliad.** Adolygu darpariaeth o doiledau cyhoeddus sydd ar gael i'r cyhoedd mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol a mannau mynediad allweddol yn cynnwys gorsafoedd bws a thrên wedi eu lleoli yng nghanol y dref. Dynodwyd hyn fel y maes ble mae'r angen mwyaf yn bodoli. Caiff ei gynnig fod toiledau cyhoeddus newydd yn cael eu darparu o dan berchnogaeth a rheolaeth y Cyngor. Bydd angen talu i ddefnyddio'r toiledau er mwyn cynorthwyo â chynnal a chadw cynaliadwy a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Caiff y toiledau eu lleoli yn natblygiad newydd yr orsaf fysiau sy'n rhan o raglen ehangach adfywio canol y dref. Caiff ystyriaeth ei rhoi i leoliad y toiledau newydd gan gadw mewn cof argymhelliad BTA na ddylai pobl orfod cerdded mwy na 500m at gyfleuster toiled.

**Glân, cael ei gadw'n dda a diogel** - Ymgymeriad â'r ffaith y bydd holl doiledau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac adeiladau Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ar agor a bod arwyddion atynt i'r cyhoedd eu defnyddio (ac eithrio ar gyfer ysgolion, cartrefi gofal ac adeiladau eraill ble caiff y cyfleusterau eu lleoli mewn ardaloedd sensitif nad ydynt yn hygyrch i'r cyhoedd). Bydd y Cyngor yn adolygu gweithrediadau glanhau a safonau yn achlysurol i sicrhau darpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon oddi fewn i'r adnoddau dynodedig. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, Diogelu Cymunedol a phreswylwyr, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau fod y cyfleusterau mor ddiogel ag sy'n bosibl.

**Darpariaeth gynaliadwy oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael -** Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gynaliadwyedd yn ei weithredoedd ei hun, yn cynnwys darparu

cyfleusterau toiled, yn ogystal ag ar draws y rhanbarth yn ehangach drwy newid hinsawdd a chynlluniau rheoli carbon. Caiff symud ymlaen o ran cynaliadwyedd ei gynnwys yn holl ddatblygiadau newydd y Cyngor.

**Darparu gwybodaeth hygyrch drwy gyfrwng mapio darpariaeth toiled –** Gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth toiled yn y Fwrdeistref Sirol drwy ddiweddaru gwybodaeth ar restr data mynediad agored Lle LlC a hefyd diweddaru gwefan Dewis. Caiff dolen ei darparu o wefan Cyngor Merthyr Tudful.

**Cyfleusterau hawdd eu darganfod ag arwyddion da yn cyfeirio atynt ac arwyddion gwybodaeth unigol at gyfleuster –** Nid oes gan bawb fynediad at yr we na thechnoleg ffonau, yn enwedig y genhedlaeth hŷn. Caiff ei ystyried yn bwysig i ddarparu arwyddion sy'n cyfeirio'r cyhoedd at doiledau sydd ar gael mewn ardaloedd sy'n gysylltiedig â chanolfannau trafnidiaeth e.e. y farchnad dan do a'r orsaf fysiau newydd. Bydd arddangos logo toiled drwy ddefnyddio sticeri wedi eu harddangos wrth holl fynedfeydd y Cyngor, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, cyfleusterau a busnesau cymunedol sydd wedi cytuno i gael eu mapio, yn helpu cynyddu ymwybyddiaeth am leoliadau'r toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd.

**Cyfleusterau hawdd eu canfod ag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth at gyfleuster unigol -** Ystyriaeth at ddarparu arwyddion i gyfeirio'r cyhoedd at doiledau sydd ar gael mewn ardaloedd sy'n gysylltiedig â chanolfannau trafnidiaeth e.e. y farchnad dan do a'r orsaf fysiau newydd. Arddangos logo toiled drwy ddefnyddio sticeri wedi eu harddangos wrth holl fynedfeydd y Cyngor, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, cyfleusterau cymunedol a busnesau sydd wedi cytuno cael eu mapio.

**Gwneud y mwyaf o argaeledd drwy bartneriaeth a darpariaeth fasnachol –** Parhau i weithio gyda busnesau lleol i hyrwyddo defnyddio'u cyfleusterau toiled. Ymrwymiad i ailymweld â'r Cynllun Toiled Cymunedol i roi ysgogiad ariannol i fusnesau i agor eu toiledau i'r cyhoedd mewn ardaloedd sydd â bwlch yn y ddarpariaeth a ddynodwyd gan yr asesiad angen. Archwilio opsiynau i gynyddu darpariaeth toiled lleol drwy nawdd, hysbysebu a gweithio mewn partneriaeth.

**Cysylltu a gweithio â Chynghorau Cymuned a Thref i ddarparu toiledau mewn cymaint o leoliadau ag sy'n bosibl.** Archwilio cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth o doiledau hygyrch i'r cyhoedd mewn lleoliadau gwledig allweddol ar hyd Taith y Taf drwy weithio â grwpiau cymunedol.

**Polisïau prydlesu –** Er nad oes yna ar hyn o bryd eiddo masnachol ar gael yng nghanol y dref dan berchnogaeth y Cyngor, dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno cymal mewn cytundebau prydlesu'r Cyngor yn y dyfodol. Bydd yn ofynnol yn ôl y cymal fod busnesau addas fel siop neu gaffi, yn cynnwys mynediad at gyfleusterau toiled i'r cyhoedd. Byddai angen i hyn gael ei gydbwyso yn erbyn unrhyw adlach

posibl fel lleihad mewn incwm rhent neu fod dirnadaeth y byddai'r gofyniad yn atal tenantiaid posibl rhag cymryd prydles.

**Darparu cyfleusterau toiled digonol gan hyrwyddwyr / trefnwyr digwyddiadau -** Mae angen rhoi ystyriaeth i gyfleusterau toiled i bobl sy'n mynychu digwyddiadau arbennig, awyr agored, boed drwy osodiadau dros dro neu drwy ddefnyddio cyfleusterau presennol yn agos at leoliad y digwyddiad drwy gytundeb â'r Cyngor. Mae Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau yn darparu canllawiau am ddim i drefnwyr digwyddiadau gan gynnwys defnydd o dir ar gyfer digwyddiadau awyr agored, yn cynnwys priffyrdd o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor. Caiff cyngor a chanllawiau am gyfleusterau toiled dros dro eu darparu fel rhan o ymagwedd gyson, proactif ac integredig i ddarparu gwasanaethau cefnogi a swyddogaethau rheoleiddio i ddigwyddiadau a fframwaith ariannol cadarn ar gyfer y gefnogaeth hon, yn ogystal â sicrhau cydymffurfio â safonau Iechyd a Diogelwch. Bydd y Grŵp Ymgynghori Diogelwch Digwyddiadau yn parhau i weithio â threfnwyr digwyddiadau i sicrhau eu bod yn darparu cyfleusterau toiled digonol i bobl sy'n mynychu. Mae digwyddiadau dros dro a drefnwyd ar fyr rybudd yn fwy heriol ond bydd y Cyngor yn gweithio â threfnwyr i geisio sicrhau darpariaeth toiled digonol.

**Gwagleoedd Gwyrdd -** Mae Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cydnabod fod yr angen am gyfleusterau toiled yn fawr mewn parciau yn cynnwys ardaloedd chwarae a gwagleoedd gwyrdd mwy anffurfiol fel parciau gwledig. Mae atyniadau poblogaidd fel Parc Cyfarthfa a Pharc Taf Bargoed yn denu twristiaid a phreswylwyr ac yn cynnwys ardaloedd chwarae i blant. Y mae'n annhebygol y bydd yna gyfleusterau eraill yn agos y gall pobl eu defnyddio, wrth felly fwynhau'r parc, bydd y Cyngor yn ceisio cynnal darpariaeth toiled yn yr ardaloedd hyn ac archwilio ffyrdd a allai ganiatáu estyn yr oriau agor. Er enghraifft - pan fydd Prosiect Hydro Parc Taf Bargoed yn cynhyrchu refeniw a goblygiadau a bod cydymffurfio llwyr â phrydles gallai fod yn bosibl i ganiatáu i swydd y warden presennol gael ei hariannu'n llwyr gan y Prosiect. Gallai hyn ryddhau arian o gyllidebau cyfredol warden y parc i ddarparu cyfleusterau ychwanegol e.e. newid babi ac oriau agor ychwanegol.

**Mynd i'r afael â digartrefedd –** Archwilio opsiynau i ddarparu cyfleusterau i bobl sy'n cysgu ar y stryd i leihau faint o faw dynol sydd yng nghanol y dref ac ar hyd Taith y Taf.

**Pwerau cyfreithiol** - Gellir defnyddio pwerau i sicrhau fod toiledau cyhoeddus yn cael eu darparu a'u cynnal i'r cyhoedd eu defnyddio mewn lleoliadau masnachol perthnasol. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Adran 20 yn caniatáu awdurdod lleol i ofyn bod unrhyw fusnes a ddosberthir fel lle ar gyfer adloniant neu werthu bwyd a diod i'r cyhoedd ei fwyta ac yfed ar y lleoliad, yn darparu toiledau cyhoeddus. Caiff y pwerau hyn eu gweithredu ble y bo'n bosibl.

**Rhoddir ystyriaeth i gynnwys darpariaeth toiledau lleol mewn Ardoll Isadeiledd Cymunedol. –** Mae Ardoll Isadeiledd Cymunedol yn galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i godi arian oddi wrth ddatblygwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd penodol yn yr ardal. Gellir defnyddio'r arain ar gyfer amrywiaeth eang o gostau isadeiledd, fel addysg, priffyrdd ac yn y blaen, sydd eu hangen o ganlyniad i dai newydd er enghraifft. Gallai hyn fod yn un ffordd o sicrhau ariannau ar gyfer darpariaeth toiledau cyhoeddus y dyfodol oddi fewn i neu'n agos at ddatblygiadau newydd, neu'r angen am sail sy'n cael ei lywio gan alw ac yn dibynnu ar flaenoriaethu rhwng anghenion newydd isadeiledd.

**Caiff ystyriaeth ei rhoi i gynnwys darpariaeth toiled lleol mewn cynlluniau newydd a ddyfeisiwyd o dan Ardoll Isadeiledd Cymunedol.** Mae Ardoll Isadeiledd Cymunedol yn galluogi awdurdod cynllunio lleol Merthyr Tudful i godi nawdd oddi wrth ddatblygwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd yn eu hardal. Gellir defnyddio'r arian ar gyfer amrywiaeth eang o gostau isadeiledd, fel addysg, heddlu a'r gwasanaeth tân, sydd eu hangen o ganlyniad i dai newydd er enghraifft. Gallai hyn fod yn ffordd o sicrhau arian ar gyfer darpariaeth toiledau cyhoeddus yn y dyfodol oddi fewn i neu wrth ymyl datblygiadau newydd, ar sail angen a galw ac yn dibynnu ar y flaenoriaeth rhwng anghenion isadeiledd newydd.

## Casgliadau

Y mae llwyddiant unrhyw strategaeth i gael y mwyaf o adnoddau prin yn fwy nac erioed ynghylch gweithio mewn partneriaeth. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu perthynas newydd rhwng y cyhoedd, sectorau cyhoeddus a phreifat ac i ddatblygu'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus cynaliadwy.

Gwyddom o'n hymarfer ymgynghori asesiad angen fod y bwlch rhwng yr hyn sydd ei angen a'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn sylweddol, yn enwedig yng nghanol y dref. Mae'r Cyngor wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r asesiad angen. Rydym yn sylweddoli fel awdurdod lleol na allwn fforddio llenwi'r bwlch hwn drwy weithio ar ein pen ein hunain.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn rydym yn cynnig cyfres o weithredoedd y gallwn eu cyflawni dros y 2 flynedd nesaf ac ar eu diwedd bydd y strategaeth yn barod am adolygiad.

Rydym yn cynnig gwella lefel toiledau cyhoeddus glân a diogel sydd ar gael drwy gynyddu ein portffolio tolied ein hunain at adfywio gorsaf fysiau'r dref. Yn ychwanegol byddwn yn ceisio archwilio ffyrdd y gallwn gydweithio â sectorau preifat/ sectorau gwirfoddol i wella darpariaeth ym mhob lleoliad ble y cafodd yr angen ei ddynodi.

Bydd yr holl gyfleusterau toiledau cyhoeddus sydd ar gael yn cael eu harwyddbostio a'u mapio, fel bod preswylwyr ac ymwelwyr yn gwybod ble i'w canfod, pryd y byddant ar agor a pha gyfleusterau sydd ar gael.

## Atodiad 1

## Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad asesiad angen

Cafwyd ymgynghoriad rhwng 3-28 Medi 2018. Roedd yr arolwg ar-lein drwy Smart Survey a chyfeiriwyd pobl at yr arolwg drwy dudalen Facebook CBSMT, tudalen Twitter CBSMT a'r wefan gorfforaethol. Darparwyd copïau papur hefyd i'r fforwm o 50+ drwy Gydlynydd Cefnogi Pobl.

Gwnaeth 438 o bobl fynd at yr arolwg ar-lein, fodd bynnag dim ond 149 ohonynt gafodd eu cwblhau.

Canfyddiadau allweddol:

- roedd 131 o'r ymatebwyr yn breswylwyr ym Merthyr Tudful
- roedd 83 o'r ymatebwyr yn benodol berthnasol i Ward y Dref
- cafodd Parc Cyfarthfa ei restru fel yr atyniad yr ymwelwyd ag ef yn fwyaf aml, gyda Pharc Taf Bargoed yn dilyn
- teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod y ddarpariaeth doiled un ai'n annigonol neu nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gael
- roedd 93.3% o ymatebwyr yn anghytuno fod yna ddigon o gyfleusterau
- roedd 90% o ymatebwyr yn teimlo fel nad oes yna ddigon o wybodaeth am ble y caiff y cyfleusterau eu lleoli
- nid oedd 84.6% o'r ymatebwyr yn hoffi defnyddio toiledau mewn siopau na thai bwyta am eu bod yn teimlo fod angen iddynt brynu rhywbeth
- teimlai 85.2% o ymatebwyr y dylai toiledau fod yn rhad ac am ddim i'w defnyddio

Demograffig:

- roedd 74.5% o ymatebwyr rhwng 36-64 oed
- roedd 68.46% yn fenywod
- roedd 86.58% o ethnigrwydd gwyn
- roedd 36.17% o ymatebwyr un ai ag anabledd neu broblem iechyd hir dymor

# Atodiad 2

## Lleoliad toiledau'r Cyngor/ Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful sydd ar gael i'r cyhoedd

| Lleoliad | Cod Post |
|---|---|
| Canolfan Gymunedol Aberfan | CF48 4QQ |
| Canolfan Ddinesig | CF47 8AN |
| Toiledau Pandy Parc Cyfarthfa | CF47 8RE |
| Rheilffordd Model Parc Cyfarthfa | CF47 8RE |
| Splashpad Parc Cyfarthfa | CF47 8RE |
| Canolfan Parc Cyfarthfa (y tu allan) | CF47 8RE |
| Canolfan Parc Cyfarthfa ( y tu fewn) | CF47 8RE |
| Castell Cyfarthfa | CF47 8RE |
| Canolfan Hamdden Merthyr Tudful | CF48 1UT |
| Canolfan Orbit | CF48 1DL |
| Redhouse | CF47 8AE |
| Swyddfa'r Cofrestrydd | CF47 8DP |
| Parc Taf Bargoed (Pafiliwn) | CF46 8AP |
| Parc Taf Bargoed (Ymyl y Llyn) | CF46 6AU |
| Parc Thomastown (o dan y fflat) | CF47 OHE |

## Lleoliad toiledau Bwrdd Iechyd Cwm Taf sydd ar gael i'r cyhoedd:

| Lleoliad | Cod Post |
|---|---|
| Parc Iechyd Keir Hardie | CF48 1BZ |
| Ysbyty Tywysog Siarl | CF47 9DT |

## Lleoliad toiledau cyhoeddus ar gael gan fusnesau preifat

| Lleoliad | Cod Post |
|---|---|
| Dynevor Arms | CF48 4HH |
| Canolfan Gymunedol Fir Tree | CF46 5BW |
| Clwb Criced Hills Plymouth | CF48 4BJ |
| Marchnad Dan Do | CF47 8ED |
| Clwb Llafur Pentrebach | CF48 4BY |
| Rock UK | CF46 6RD |
| Superbowl | CF48 1UT |

***NODER: Mae hon yn rhestr o doiledau sydd, ar adeg ysgrifennu, ar gael i'r cyhoedd. Caiff manylion llawn am leoliadau, amseroedd agor a chyfleusterau sydd ar gael eu mapio ar wefannau Lle a Dewis a'u diweddaru'n rheolaidd.***

## Atodiad 3

## Cyd-destun Lleol


Mae Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ei lleoli yn ardal Blaenau'r Cymoedd + oddi fewn i ranbarth Rhwydwaith Ddinesig De-ddwyrain Cymru. Mae'n cynnwys arwynebedd o c.11,100 hectar a dyma'r awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru. Mae tua un rhan o bump o'r Fwrdeistref Sirol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd.

Mae Merthyr Tudful yn elwa o nifer o goridorau trafnidiaeth strategol sy'n ei galluogi i chwarae rôl strategol yn ardal Blaenau'r Cymoedd a rhanbarth Rhwydwaith Ddinesig. Mae'r A465 yn ei chroestorri (ffordd Blaenau'r Cymoedd) a'r A470 yn y gogledd a'r A470 a'r A472 yn y de. Mae'r rhain yn caniatáu mynediad hawdd i Orllewin Cymru, Dwyrain Cymru, Canoldir Lloegr a Chaerdydd / coridor yr M4 tua'r de. Amcangyfrifir fod 600,000 o bobl a 150,000 o swyddi o fewn 30 munud i Ferthyr Tudful.

Mae gan y Fwrdeistref Sirol boblogaeth o 59,700. O'r boblogaeth hon mae tua 43,000 yn byw yn y brif dref - Merthyr Tudful. Mae'r dref yn gweithredu fel y brif ganolfan fasnachol, manwerthu a gwasanaethau'r Fwrdeistref Sirol a Rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. Mae'n cynnwys pencadlys gweinyddol (e.e. Cyngor Bwrdeistref Sirol), prif ardaloedd siopa, y rhan fwyaf o gyfleoedd cyflogaeth y Fwrdeistref Sirol a llawer o wasanaethau a chyfleusterau eraill o radd uwch sydd hefyd yn gwasanaethu'r aneddiadau amgylchynol. Mae gweddill y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys wyth anheddiad wedi eu lleoli ar hyd dyffrynnoedd afonydd Taf a Thaf Bargoed. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau sy'n gwasanaethu anghenion lleol a chyfleoedd gwaith mwy cyfyngedig. Mae datblygiad hanesyddol y Fwrdeistref Sirol wedi cael ei ddylanwadu'n helaeth gan leoliad ac ecsploetiaeth adnoddau mwynol.

Mae'r ardal yn cynnwys amrywiaeth o gymunedau trefol, lled-drefol a gwledig wedi eu lleoli mewn amrywiol o amgylchiadau naturiol, lled-naturiol a hanesyddol. Y mae'n gyfoethog o ran cynefinoedd rhagorol i fywyd gwyllt, tirluniau hanesyddol a nodweddion archeolegol. Mae llethrau serth y dyffryn â'u cribau uchel a llystyfiant gweundirol yn diffinio cymeriad yr ardal, gan roi cyd-destun amgylcheddol ac ecolegol i'w aneddiadau.

O ran treftadaeth ddiwydiannol Merthyr Tudful, a gaiff ei chydnabod yn eang, mae potensial yr ardal i ymddwyn fel cyrchfan bwysig i dwristiaid / adnodd pwysig i dwristiaid eto i'w wireddu'n llwyr.




Caiff Merthyr Tudful ei chydnabod, oddi fewn i gynlluniau cenedlaethol, fel man â rôl hanfodol i'w chwarae yn llwyddiant Dinas-ranbarth Caerdydd. Fodd bynnag, er mwyn iddi gyfrannu at nodau rhanbarthol rhaid iddi oresgyn heriau economaidd a chymdeithasol ar lefel leol, yn anactifedd economaidd, problemau iechyd hir dymor a mudiad allan. Nid yn unig fydd cyflawni hyn yn gofyn am ymagwedd gydlynol a thargedig ond hefyd buddsoddiad sylweddol; yr hyn sy'n arbennig o anodd yn yr hinsawdd economaidd gyfredol. Wrth i'r arian sydd ar gael ar gyfer adfywiad economaidd a chymunedol leihau, mae'r angen i dargedu buddsoddiad ble y bo'i angen fwyaf a ble y caiff yr effaith fwyaf, yn cynyddu. Ar lefel bolisi a rhaglen mae lleoli adnoddau fel arfer yn ddibynnol ar ardal neu ranbarth, gan fod yn ddiffygiol i ganolbwyntio ar y lefel leol. Mae hyn yn broblem pan fo lleoedd sy'n arddangos lefelau difrifol o amddifadedd. Mae ymyrraeth gyson a thargedig yn ofynnol os yw Merthyr Tudful i gyflawni nodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Proffil Sosio-economaidd**

Mae'r adran hon yn crynhoi gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys oddi fewn i'n dadansoddiad sosio-economaidd o Ferthyr Tudful (2018) a dogfennau cefnogol fel Strategaeth y farchnad lafur (2017).

Mae ailstrwythuro economaidd yn hwyr yn yr 20 ganrif wedi dyfod â heriau sylweddol yn economaidd a chymdeithasol i'r Fwrdeistref Sirol. Mae effaith hyn wedi arwain at waethygu o ran amodau economaidd a chymdeithasol a'r cwymp mwyaf mewn poblogaeth yn holl Awdurdodau Lleol Cymru (7.5% rhwng 1991 a 2004). Mae'r allfudiad hwn wedi cael ei gydnabod gan Gynllun Datblygu Lleol (LDP) (2011) fel rhywbeth sy'n cyfrannu at gyfradd uwch o ddibyniaeth ble mae pobl ffit, iau yn ymadael am gyflogaeth, neu addysg uwch, a phoblogaeth lai iach, hŷn a mwy anabl yn aros. Y gyfradd bresennol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, yw 71 person dibynnol am bob 100 person oed gwaith.

Mae amodau sosio-economaidd Merthyr Tudful yn y fath gyflwr fel bod 8 o'i 36 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (22%) ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. Ymhellach: mae 30% o'i Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn cwympo oddi fewn i'r 20% Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is fwyaf difreintiedig yng Nghymru; mae 61% o'i Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn cwympo oddi fewn i 30% mwyaf difreintiedig; ac 81% o'i Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn cwympo oddi fewn i 50% o'r mwyaf difreintiedig. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cymharu'n anffafriol â chyfartaleddau Cymru a Phrydain Fawr ar draws llawer o ddangosyddion sosio-economaidd ac yn wynebu heriau sylweddol o gwmpas: lefelau uchel o anactifedd economaidd, ac amlder y digwyddiadau o broblemau iechyd hir dymor.

Cyn y dirywiad economaidd diweddaraf, bu'r nifer o swyddi ym Merthyr yn cynyddu'n raddol ers 1998, yn bennaf o ganlyniad i dwf y sectorau gweinyddu, addysg ac iechyd, ac yn ddiweddar cynhyrchu, trafnidiaeth a chyfathrebu ac adeiladu. Mae'r fwrdeistref sirol bellach yn dyfod yn 'hyb' i dwristiaid yn gyflym ar ôl i swyddi cysylltiedig gael eu creu (er eu bod yn swyddi sgiliau isel, cyflogau isel). Er gwaetha'r twf hwn, mae dwyster swydd a lefelau cyflog y Fwrdeistref Sirol yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig. Hyd yn oed cyn y dirywiad, nid oedd disgwyl i lawer o'r sectorau a gafodd eu cynrychioli'n gryf yn y Fwrdeistref Sirol dyfu dros y 10-15 mlynedd nesaf. I gymhlethu'r mater hwn, dynododd CDLl y Fwrdeistref Sirol nad oedd yr ardal yn cael ei chynrychioli'n dda yn y sectorau 'twf allweddol' tebygol fel trafnidiaeth awyr, gwasanaethau cyfrifiadurol a gwasanaethau proffesiynol.

- Mae'r gwahaniaeth mewn actifedd economaidd, cyfraddau cyflogaeth a diweithdra rhwng Merthyr a Chymru wedi culhau'n raddol rhwng 2011 ac mae cyfraddau yn 2016 bron yn gyfartal ar yr holl fesurau hyn.

- Mae diweithdra a diffyg gweithio yn parhau'n broblemau sylweddol ledled Cymru ac yn y fwrdeistref, tra bo lefelau cymwysterau'n parhau'n is i breswylwyr Merthyr yn gyffredinol, ac i'r rheini sy'n cael eu cyflogi mewn gweithleoedd yn y fwrdeistref. Mae materion sgiliau sylweddol yn parhau sy'n gosod peth heriau o ran dyfod â chyflogwyr gwerth uwch, sgiliau uwch i Ferthyr, er bod y sefyllfa yn gwella.

Mae sectorau twf wedi ymddangos yn y Fwrdeistref Sirol (twristiaeth, gwasanaethau manwerthu a gofal) er bod y swyddi'n bennaf â sgiliau isel a chyflogau isel.

• Ar hyn o bryd mae Merthyr Tudful yn darparu llafur i ardaloedd eraill, gyda rhagor o bobl yn teithio i'r gwaith y tu allan i'r fwrdeistref nac sy'n teithio iddi i weithio.

• Mae ychydig dros 8,500 o bobl yn teithio i weithleoedd ym Merthyr o ardaloedd y tu allan i ardal Merthyr gyda 83 y cant yn dod o bedair ardal penodol - RhCT, Caerffili, Blaenau Gwent a Chaerdydd.

• Mae 8,790 o breswylwyr a gyflogwyd yng ngweithleoedd Merthyr yn gweithio mewn gweithleodd a leolir y tu allan i Ferthyr Tudful ac mae 72 y cant yn teithio i leoliadau yn RhCT, Caerdydd, Caerffili a Blaenau Gwent.

• Mae Merthyr Tudful yn or-ddibynol ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ac yn ddiffygiol mewn cyfleoedd yn y sector preifat sydd o gyflogaeth werth uwch a chyflog uwch. Mae'r lefelau uchel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn debygol o fod yn chwyddo, a hynny'n ffug, lefelau cyflog yn y fwrdeistref sirol ac yn debygol

• Mae lefelau cyflog Merthyr i'r rheini i gyda sy'n gweithio ym Merthyr yn gyffredinol is na'r rheini y mae preswylwyr Merthyr sy'n gweithio y tu allan i'r fwrdeistref yn eu hennill (41 y cant sy'n cymudo y tu allan i'r fwrdeistref i weithio). Mae hwn yn un ffactor a allai gyfrannu at anawsterau recriwtio i'r rheini sy'n ceisio recriwtio i swyddi a leolir ym Merthyr yn enwedig mewn diwydiannau y mae dynion yn eu dominyddu fel Cynhyrchu a Pheirianneg.

Mae mynediad at wasanaethau a gweithgareddau o bryder penodol i gymunedau gwledig Cwm Taf. Mae'r ganran o gartrefi heb gar yng Nghwm Taf gwledig yn uchel o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (27% Merthyr Tudful wledig, 28% RhCT wledig o'i gymharu â 23% ledled Cymru) Mewn adborth a ddarparwyd mewn gweithdy gan Weithredu Gwledig Cwm Taf ym mis Hydref 2014, cafodd rhai o'r risgiau a'r materion sy'n effeithio ar y gymuded wledig leol eu hamlygu. Yn eu plith oedd pryderon am fynedadwyedd ac arwahanrwydd, diffyg trafnidiaeth gyhoeddus a chefnogaeth cyfleusterau cymunedol.

Nid teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yw'r unig rai sy'n dioddef o iechyd gwael neu ddiweithdra, mae tlodi tanwydd a thlodi mewn gwaith yn broblemau gwirioneddol sy'n wynebu cymunedau yn ardal Gweithredu Gwledig Cwm Taf. Drwy leihau'r gwasanaethau statudol yn lleol, mae'r tlodi hwn yn cael ei gymhlethu gan lai o ganolfannau ymgysylltu cymunedol, sy'n bygwth cydlyniant cymunedol ardal wledig, gan arwain at arwahanrwydd i rai aelodau o'n cymunedau gwledig a lleihad o ran mynediad at wasanaethau.

Bydd toriadau i gefnogaeth y sector cyhoeddus i drafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn cyfyngu mynediad cymunedau gwledig at wasanaethau ymhellach, a fydd yn arwain at fwy o ofynion o du cyfleusterau cymunedol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol fel toiledau cyhoeddus.

## Atodiad 4

## Rhestr o'r Sefydliadau gysylltwyd â hwy fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos

| Grŵp |
|---|
| YHMT |
| Grŵp Iechyd a Llesiant Cymdeithasol |
| Merthyr Tudful Ddiogelach |
| Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus |
| Rhwydwaith Rhieni |
| Fforwm 50+ |
| Fforymau Ieuenctid |
| Y Blynyddoedd Cynnar |
| Mentrau Cymdeithasol |
| Fforwm Busnes |
| Digartref |
| Shelter Cymru |
| Cymeithas Tai Merthyr Tudful |
| Cymdeithas Tai Hafod |
| Tai Wales & West Housing |
| Tai Cymoedd Merthyr |
| Cefnogi Pobl |
| Cynghorwyr Lleol |
| Cyngor Cymunedol Bedlinog |
| Dawn Bowden AC |
| Gerald Jones AC |
| Cyfleusterau Cymunedol / Hamdden |
| Canolfan Soar |
| RedHouse |
| Cyfeillion Parc Cyfarthfa |
| Cyfeillion Parc Taf Bargoed |
| 3G's |
| Partneriaeth Ganol y Dref |
| BID |
| Fforwm Mynediad at Gefn Gwlad |
| Rhwydwaith Mannau Gwyrdd |
| Staff CBSMT |
| Undebau CBSMT |
| Croeso Merthyr |
| Coleg Merthyr Tudful |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain |
| Disability Can Do |

| |
|---|
| Anabledd Cymru |
| Cymdeithas Cenedlaethol Awtistiaieth – Cangen Merthyr |
| Grwpiau Parkinsons |
| Merthyr Eyelights |
| Nam ar y Golwg Merthyr |
| Sensations |
| Dwarf Sports Association |
| Cymdeithas y Deillion Merthyr Tudful |
| Cymdeithas MS RhCT a Merthyr |
| Disability Sport Merthyr |
| Race Council Cymru |
| Cydraddoldeb Hil yn Gyntaf |
| Cydraddoldeb Hilion De-ddwyrain Cymru |
| Umbrella Cymru |
| Stonewall Cymru |
| Menter Iaith |
| Fforwm Iaith Gymraeg / Urdd |
| Chwaraeon Cymru |
| Athletics Cymru |
| Meddygfeydd |
| Comisiynydd y Gymraeg |
| Comisiwn Cydraddoldebau a Hawliau Dynol |
| Crohn's+Colitis DU |
| Diabetes Cymru |
| Y Gymdeithas Strôc |
| Gofal Arthritis |
| Help Llaw |
| Gofal Canser Tenovus |
| ProstateCymru |
| Gyrfa Cymru |
| Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-ddwyrain Cymru |

## Atodiad 5

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriadau cyhoeddus 12 wythnos

### Y broses ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos o ddydd Iau 20 Rhagfyr 2018 tan ddydd Iau 14 Mawrth 2019.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein drwy Smart Survey ac roedd pobl yn cael eu cyfeirio at yr arolwg drwy dudalen Facebook a Twitter CBSMT, a'r wefan gorfforaethol.

Roedd copïau papur at gael wrth ddesgiau Derbynfa'r Cyngor yn y Ganolfan Ddinesig ac adeiladau Uned 5.

Hefyd, cafodd yr arolwg ei anfon drwy e-bost i'r holl staff a Chynghorwyr ac i'r amrywiol randdeilaid a sefydliadau lleol a chenedlaethol gan gynnwys YMMT, Fforwm 50+, Shelter Cymru, Merthyr Tudful Ddiogelach, Crohns & Colitis UK, Helping Hands a Chwaraeon i'r Anabl Merthyr.

Cafodd 457 o bobl fynediad i'r arolwg ar-lein. Cafodd 84 arolwg eu cwblhau. Teimlwn fod y gymhareb cwblhau gymharol isel (18.38%) yn sgil y ffaith y gofynnwyd i bobl ddarllen y Strategaeth Ddrafft ar ddecrhau'r arolwg er mwyn ateb y cwestiynau canlynol:

1. Dynodwch eich buddiant yn yr ymgynghoriad hwn (ticiwch bopeth cymwys):
2. Ydy'r crynodeb o'r anghenion asesu yn adlewyrchiad cywir o ddarpariaeth doiledau oddi fewn i Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful?
3. Yn eich barn chi, a yw'r strategaeth wedi colli cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o ddarpariaeth doiledau ym Merthyr Tudufl?
4. Yn eich barn chi, a yw'r strategaeth wedi colli cyfle i gynyddu darpariaeth doiledau ym Merthyr Tudful?
5. A oes gennych unrhyw sylwadau am sut y bwriada'r Cyngor wella mynediad at ddarpariaeth doiledau dros y 2 flynedd nesaf?
6. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr ydych yn teimlo sy'n berthnasol i ddatblygu'r strategaeth toiledau lleol ar gyfer Merthyr Tudful?
7. Rhowch fanylion os ydych yn teimlo bod eich ymateb i'r arolwg hwn wedi cael ei ddylanwadu gan unrhyw un o'r canlynol: eich tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, tueddfryd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau crefyddol, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb dros unrhyw yn sy'n ddibynnol arnoch:

**Canlyniadau'r ymgynghoriad**

Canfyddiadau allweddol:

- 90.48% ymatebwyr yn breswylwyr ym Merthyr Tudful

- 61.90% ymatebwyr o'r farn fod crynodeb yr asesiad angen yn adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth doiledau ym Merthyr Tudful

- 71.43% o'r ymatebwyr o'r farn fod y strategaeth wedi colli cyfle i gynyddu darpariaeth doiledau ym Merthyr Tudful. Ymhlith rhai o'r sylwadau yngylch hyn cafwyd canlynol:
    - *Ddylai fyth fod wedi bod bwlch o'r fath o ran y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn yr orsaf fysiau bresennol. Mae'r toiledau yn parhau i fod yna ond ni ellir eu defnyddio. Mae cyfnod hir cyn bod gwaith yn dechrau ar yr orsaf fysiau newydd, os o gwbl.*
    - *Mae'n bosibl y gallai busnesau gael cynnig o ganran gostyngiad mewn ardrethi busnes pe byddent yn barod i gynnig darpariaeth toiledau am ddim. Dylid codi'r cyfyngiadau ar doiledau i'r anabl/dynion/menywod i fusnesau bach sy'n cynnig y ddarpariaeth hon.*
    - *Mae angen i NI gynyddu nifer y toiledau o ansawdd da mewn Meysydd Parcio ac ardaloedd Trafnidiaeth.*
    - *Cafodd darpariaeth toiledau ei lleihau nifer o flynyddoedd yn ôl – mae angen rhagor, yn enwedig yng nghanol y dref.*
    - *Mae'n anodd cynyddu darpariaeth toiledau gan y byddai felly'n ofynnol un ai ail-agor toiledau'r orsaf fysiau neu adeiladu cyfleusterau newydd. Mae'r pwysau ariannol ar y Cyngor yn fwy nawr nag yr oedd flynyddoedd yn ôl.*
    - *Dylid gwneud rhagor i ymgysylltu â busnesau lleol i agor eu cyfleusterau i'r cyhoedd. Dylid ystyried grantiau bach neu fentrau bach.*
    - *Gan yr ymddengys nad yw busnesau lleol am agor eu darpariaeth i'r cyhoedd, a chan fod yna gyndynrwydd o ran aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio cyfleusterau busnesau, dylai fod yna ryw fath o ddarpariaeth a ariennir yn gyhoeddus.*
    - *Sioe fawr yn cael ei wneud o'r ffaith y bydd yna nifer o doiledau yn yr orsaf fysiau newydd ond heb ddweud y byddant ddim ond yn hygyrch tra bo'r adeilad ar agor, ac nid yw hynny hyd yn oed yn cynnwys oriau agor llawn yr orsaf.*
    - *Ni fydd trenau newydd i Gaerdydd yn cynnwys toiledau o gwbl. Rhaid i BOB gorsaf ar hyd y llinell gan darpariaeth toiledau. Mae yna hefyd angen am ddarpariaeth ledled ardal caffis/tafarndai Canol y Dref ar*

*gyfer defnydd cyson o doiledau. Mae angen i hyn fod yn ddarpariaeth gyhoeddus.*

Cafwyd 32 ymateb i gwestiwn 5 (Oes gennych unrhyw sylwadau am sut y mae'r Cyngor yn bwriadu gwella mynediad at ddarpariaeth doiledau dros y 2 flynedd nesaf?), gellir gweld detholiad isod:

- *Dylid uwchraddio'r cyfleusterau ar unwaith. Weithiau, mae'n anodd iawn, wrth deithio o Ferthyr i lawr y cwm er mwyn teithio ymhellach, gael mynediad at gyfleusterau toiledau a llwyddo i ddal y bysiau. Gwastraffwyd llawer o arian yn trawsnewid toiledau'r orsaf fysiau ac yna disgwyl i weithwyr y caffi eu glanhau, wrth ystyied faint o bobl fyddai angen eu defnyddio.*
- *Mae angen bloc toiledau fel oedd arfer bod wrth yr arosfan fysiau i bobl ei ddefnyddio, gan yn ei dro, greu swyddi glanhau a chynnal a chadw toiledau.*
- *Mae'n bosibl fod yna grwpiau cymunedol â diddordeb mewn rhedeg cyfleuster cymunedol – ddim yn siŵr a yw hyn wedi ei gynnwys.*
- *Dewch â thoiledau cyhoeddus yn ôl i'r orsaf fysiau hyd yn oed os fyddai rhaid talu 30c i'w defnyddio.*
- *Talwch weithwyr i gynnal a chadw a gofalu am y cyfleusterau hyn. Cyflogaeth i bobl leol ac amwynderau i ymwelwyr a phobl leol.*
- *Sylwadau am nad yw pobl yn defnyddio siopau canol y dref ayb oherwydd y bobl annymunol sy'n loetran o gwmpas y dref, ydy mae hyn yn cael effaith, ond mae hyn ym mhob tref, ond mae'r cyfleusterau toiledau ym Merthyr a'r cylch yn ofnadwy.*
- *Mae angen toiledau cyhoeddus ym mharc manwerthu Pentrebach. Roedd rhaid i mi adael fy siopa a gyrru i'r Co-op gan fod fy mhlentyn angen y toiled. Doedd dim cyfleusterau ar gael.*
- *Mae arwyddion GO IAWN yn hanfodol.*
- *Gellir gwneud gwelliannau drwy adlewyrchu trefi a dinasoedd byd-eang, ble y cafodd mynediad ei seilio'n llwyddiannus ar eu strategaeth leol.*
- *Mae llawer o lefydd hefyd yn darparu darpariaeth lân a modern drwy roi'r hawl i bobl dalu hynny yw: arian, cerdyn.*
- *Mae'n hanfodol i gymdeithas sy'n heneiddio gael mynediad at gyfleustrau toiledau diogel ynghyd â nifer o grwpiau lleiafrifol eraill o bobl a nodwyd.*
- *Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i ddarpariaeth toiledau yn enwedig dros benwythnosau ac ar ôl oriau gwaith arferol. Mae angen i'r ddarpariaeth gael ei goruchwylio/monitro i atal camddefnyddio sydd yn ei dro yn atal y cyhoedd rhag ei defnyddio.*
- *Byddai'n fuddiol cydweithio â busnesau lleol i allugoi'r cyhoedd i ddefnyddio eu cyfleusterau os oes rhai ganddynt. Byddai gwell arwyddion i gyfleusterau cyhoeddus yn beth da.*
- *Rydych yn cydnabod nad oes digon o doiledau yn ardaloedd y fwrdeistref ond does dim sôn am y tu allan i ardal y dref, beth am y wardiau eraill?*

- *Rwy’n meddwl fydd y gwefannau’n ddeniadol i’r ifanc, ond rhaid i chi gynnwys arwyddion sylfaenol hefyd oherwydd bydd carfan fawr o’r henoed na fyddant yn gallu defnyddio’r we.*
- *Cynyddu’r defnydd o gyfleusterau mewn busnesau cyfredol ac adeiladau masnachol, efallai drwy gymhelliad drwy ardrethi neu ariannu arall o’r awdurdod.*
- *Dylai fod gan yr orsaf fysiau doiledau sydd ar agor ar ôl oriau siopa.*

Ymhlith rhai o’r sylwadau ychwanegol cafwyd y canlynol:

- *Mae arwyddion sy’n cyfeirio at doiledau yn nodwedd mewn sawl ardal ganol tref ac atyniad twristiaid, gan helpu’r bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Nodwedd arall mewn trefi ac atyniadau twristiaid poblogaidd yw’r ddarpariaeth o fapiau wrth byrth/ prif lwybrau gyda ‘rydych chi yma’ gan dangos llefydd o ddiddordeb gan gynnwys toiledau.*
- *Mae’r strategaeth yn canolbwyntio’n ormodol ar fynediad at y we wrth fynd i’r afael â sut y bydd yn “hysbysebu” lleoliadau cyfleusterau toiled gan dybio fod gan lawer o bobl fynediad at ffonau a’r we.*
- *Ymddengys y gallai wella ymwybyddiaeth o gyfleusterau lleol.*
- *Ceir nifer o fanwerthwyr mawr sy’n hapus i chi alw mewn a defnyddio’u cyfleusterau ac ni chaiff hyn ei gydnabod ar y rhestr ddarpariaeth.*

Demograffeg yr ymatebwyr:

- 54.76% yn 51+ oed
- 60.71% yn fenywod
- 40.47% ag un ai anabledd neu salwch hir dymor neu broblem iechyd